# Pwyllgor Adolygu Gweithredol
## 04 Mawrth 2026

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd M Bowen, Miss F Day, y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd S Hancock MBE, Dr M Havard (Sylwedydd), Mrs S Hoss, Mr GA Jones, y Cynghorydd A Tinley a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol**:
Steffan Davies (Swyddog Cynllunio), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), David Meyrick (Cyngor Sir Penfro), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Gareth Thomas (Tai Cymru a'r Gorllewin), a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11:50am)

[Oherwydd ymadawiad Dr R Plummer, cymerodd y Cynghorydd S Alderman y Gadair am y cyfarfod fel Dirprwy Gadeirydd.]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. Datgan buddiannau**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Mr GA Jones, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**
Nodwyd y log gweithredu.

**Nodwyd.**

**5. Archwiliad Dwfn/ Hunanasesiad ar yr Amcanion Llesiant: Cymunedau**
Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad manwl a hunanasesiad ar yr amcan llesiant Cymunedau, gyda ffocws penodol ar dai fforddiadwy. Dywedwyd bod yr amcan Cymunedau yn canolbwyntio ar gyflawni cymunedau bywiog, cynaliadwy a llewyrchus yn y Parc lle gallai pobl fyw, gweithio a mwynhau. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr archwiliad dwfn ar ddarparu tai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol oedd yn cyfrannu at ystod o ganlyniadau o dan yr amcan Cymunedau.
Roedd yr adroddiad yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch gofynion y polisi cenedlaethol ar dai fforddiadwy, yr angen am dai fforddiadwy yn y Parc

Cenedlaethol, asesiad o’r camau ymlaen a gymerwyd, a’r mecanweithiau ar gyfer darparu tai fforddiadwy.

**Nodwyd.**

6. **Astudiaeth Achos: Grant Tai Cymdeithasol**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr D Meyrick (Cyngor Sir Penfro) a roddodd drosolwg i'r Aelodau o Grant Tai Cymdeithasol Cyngor Sir Penfro (CSP). Roedd y cyflwyniad yn manylu ar y modd y cyfrifir y grant, dyraniad Sir Benfro, y cynllun i ddatblygu'r rhaglen, rhestr o’r datblygiadau sydd ar y gweill, nifer y tai a gwblhawyd yn y gorffennol, y grantiau ychwanegol sydd ar gael ar gyfer tai fforddiadwy, a'r broses o gynnig safleoedd i'r cynllun.

Bu’r Aelodau yn trafod yr her o gydbwyso dyletswyddau cadwraeth statudol yr Awdurdod â’r angen economaidd-gymdeithasol i ddarparu tai i gymunedau yn Sir Benfro. Roedd y swyddogion yn cydnabod bod tir yn adnodd cyfyngedig, a chadarnhawyd bod yr effaith ar y dirwedd yn elfen a ystyrir wrth asesu safleoedd eithriedig. Amlygodd y swyddogion, er gwaethaf yr heriau hyn, bod tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn cynnig cyfleoedd yn y maes hwn. Ychwanegodd Mr D Meyrick bod CSP yn targedu ardaloedd lle mae’r stoc yn gyfyngedig, gyda’r nod o brynu eiddo oedd gynt yn berchen i’r Cyngor i gynyddu’r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn yr ardal honno.

Nodwyd ei bod yn ofynnol cael Cynlluniau Datblygu Lleol, fel rhan o'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol, i sicrhau bod tai yn parhau yn dai fforddiadwy am byth i feddianwyr dilynol, a gofynnodd Aelod sut fyddai hynny yn cael ei sicrhau. Cadarnhawyd y byddai cytundebau Adran 106 yn cael eu defnyddio, ac y byddai'r amod yn cael ei amlygu yn ystod y broses gyfreithiol wrth werthu'r eiddo i sicrhau mai dim ond unigolion cymwys fyddai'n cael eu hystyried.

Nodwyd bod yr Iaith Gymraeg wedi'i hystyried fel rhan o'r cynllun tai fforddiadwy, a gofynnodd Aelod pa fecanweithiau a ddefnyddiwyd i sicrhau y byddai tai fforddiadwy ar gael i unigolion lleol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu bod y polisi perthnasol yn clustnodi’r ardaloedd sensitif o ran y Gymraeg, gyda pholisïau gosod lleol yn cael eu defnyddio i sicrhau y byddai unigolion lleol â chysylltiadau lleol â'r ardal yn cael blaenoriaeth.

**Nodwyd.**

7. **Astudiaeth Achos: Tai Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig Gwledig**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr G Thomas (Tai Cymru a'r Gorllewin) a roddodd gyflwyniad oedd yn drosolwg o’r broses o ddarparu 31 o dai fforddiadwy ar safle eithriedig gwledig. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys ystadegau ar nifer y tai fforddiadwy a ddarparwyd, trosolwg o'r gwaith a drefnwyd, yr angen am dai oedd wedi’i glustnodi, manylebau a safonau'r gwaith adeiladu a wnaed, map o’r broses ddatblygu, a manylion y cyllid oedd ar gael. Tynnodd Mr G Thomas sylw at y negeseuon allweddol o'r adroddiad

ar yr astudiaeth achos, ac eglurodd mai dim ond tai fforddiadwy fyddai'n parhau yn dai fforddiadwy am byth fyddai'n cael eu caniatáu ar safleoedd eithriedig gwledig.

Cafwyd trafodaeth ar y cymysgedd o fathau o eiddo tai fforddiadwy a ddarperir ar y safle. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhawyd bod y cymysgedd o wahanol fathau o eiddo sydd ar gael wedi'i lywio gan gofrestr tai CSP.

**Nodwyd.**

[Ymunodd y Cynghorydd C Williams â'r cyfarfod yr adeg hon.]

**8. Adroddiad ar y Perfformiad Amcanion Llesiant**

Roedd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth wedi cyflwyno Adroddiad ar y Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant oedd yn rhoi manylion ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y dangosyddion/ prosiectau/ rhaglenni gwaith blaenoriaeth am y cyfnod yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2025 ac yn cynnwys ystadegau chwarter 3 ar rai mesurau. Roedd yr adroddiad perfformiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) fel y'u nodir yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod 2023/24 – 2026/27.

Nodwyd bod gan yr Awdurdod sawl swydd wag ar y pryd, a gofynnodd Aelod a oedd y swyddi gwag hyn yn effeithio ar y perfformiad. Cadarnhawyd bod sawl swydd yn wag ar y pryd wrth i'r Awdurdod geisio ailstrwythuro i wneud arbedion costau.

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi gweld gostyngiad yn nifer y rhai oedd yn cymryd rhan yn y rhaglenni dysgu o Ysgolion Sir Benfro o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, a gofynnodd Aelod am fanylion pellach. Cadarnhaodd y Swyddog bod y rheswm am y gostyngiad i'w briodoli yn rhannol i'r ffaith bod ffocws presennol y Tîm Addysg ar y prosiect Tirlun, ac i'r cynnydd yn y costau cludiant. Cytunodd y Swyddog i gysylltu â'r tîm i weld lle yn union fydd eu ffocws wrth symud ymlaen.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 10/06/2026 heb eu diwygio. |